AMGUEDDFA CYMRU

# Polisi Diogelu Plant ac Oedolion

# Mynegai


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad a chyd-destun | **3** |
| 2 | Diogelu – Perchnogaeth a Chyfrifoldeb | **6** |
| 3 | Strwythur Diogelu | **8** |
| 4 | Cyfrifoldebau Cyfreithiol | **9** |
| 5 | Polisi Diogelu Plant ac Oedolion | **12** |
| 6 | Cyfrifoldebau Partneriaeth | **14** |
| 7 | Hyfforddiant | **15** |
| 8 | Beth i'w wneud os oes gennych chi bryder | **18** |
| 9 | Geirfa a diffiniadau | **19** |

# 1. Cyflwyniad a chyd-destun

1.1. Nod Amgueddfa Cymru yw ysbrydoli pobl a newid bywydau. Mae ein Gweledigaeth, ein Hymrwymiadau a'n Gwerthoedd yn nodi'r disgwyliad y byddwn ni'n parchu eraill, yn gweithredu'n gyfrifol ac yn diogelu lles ein gilydd.

1.2. Rydyn ni'n cydnabod bod ein staff yn delio ag amrywiaeth o unigolion o bob cwr o Gymru a'r byd. Mae hyn yn cynnwys plant a allai fod yn fwy agored i niwed neu blant sy'n wynebu risg.

1.3. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Amgueddfa, gyda'r Amgueddfa neu mewn partneriaeth â'r Amgueddfa yn ddiogel ac wedi'i diogelu, a'n bod yn diwallu ein cyfrifoldebau statudol i ddiogelu plant ac oedolion yn effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd sy'n diogelu pobl eraill a sicrhau eu bod yn ddiogel.

1.4. Mae disgwyliad llwyr i bawb sy'n gweithio i neu gydag Amgueddfa Cymru i gydymffurfio â'n Polisi a Gweithdrefnau Diogelu. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro a staff achlysurol (caiff unrhyw achos o fethiant i gydymffurfio ei archwilio yn unol â'n Polisi Disgyblu); gwirfoddolwyr (caiff unrhyw achos o fethiant i gydymffurfio ei archwilio yn unol â'n Polisi Setlo Trafferthion Gwirfoddolwyr); contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid (caiff cyrff perthnasol eu hysbysu o unrhyw ganfyddiadau). Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant ac oedolion rhag camdriniaeth.

1.5. Mae'r polisi hwn a'i weithdrefnau cysylltiedig yn gymwys ym mhob safle ac adeilad Amgueddfa Cymru ac ar-lein. Yn ychwanegol, disgwylir i bob aelod o staff a'r rheiny sy'n cynrychioli Amgueddfa Cymru gydymffurfio â'r Polisi a Gweithdrefnau Diogelu wrth gynrychioli'r sefydliad.

1.6. Er bod amser cyswllt â phlant yn amrywio rhwng gweithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid, rhaid i bawb fod yn ymwybodol o'r arwyddion posib o gam-drin ac esgeulustod, a deall yn glir beth i'w wneud os ydynt yn poeni. Rydym

wedi ymrwymo i sicrhau bod ein tîm yn cydnabod eu cyfrifoldebau i ddiogelu pobl eraill, a byddwn yn eu cefnogi nhw i gymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu a hybu lles pobl eraill.

1.7. Yn strategol, rydym yn cydnabod ein dyletswydd i ddiogelu pobl yn gydweithredol ac mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i'r canlynol yn unig) Awdurdodau Addysg Lleol, yr Heddlu, a Gofal Cymdeithasol.

1.8. Wrth groesawu Grwpiau Ysgol/Ieuenctid, byddwn yn glir ynghylch ein dyletswydd i gydweithio, a chytuno ar ein disgwyliadau ynghylch safonau diogelu.

1.9. Mae'r ddogfen hon wedi'i dylunio i roi trosolwg lefel uchel o'n hymrwymiad i ddiogelu, ynghyd â'r prosesau a gweithdrefnau deddfwriaethol sy'n ategu gweithgarwch diogelu. Mae yna weithdrefnau penodol i gyd-fynd â'r ddogfen bolisi hon, sy'n llywio gweithgarwch strategol a gweithredol yn y meysydd canlynol:

- Gweithdrefnau Diogelu Plant (gan gynnwys Canllawiau ar Blant sydd ar goll) (Arweinydd: Pennaeth Addysg)
- Gweithdrefnau Diogelu Oedolion (Arweinydd: Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli)
- Gweithdrefnau Recriwtio Diogel (Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) (Arweinydd: Pennaeth Adnoddau Dynol)
- Polisi a Gweithdrefn Disgyblu (Arweinydd: Pennaeth Adnoddau Dynol)
- Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban (Arweinydd: Pennaeth Adnoddau Dynol)
- Gweithdrefnau Diogelu Pobl Ifanc Ar-lein (Arweinydd: Pennaeth Ymgysylltu a Gwirfoddoli)
- Polisi a Gweithdrefnau Cyfryngau Cymdeithasol (Arweinydd: Pennaeth y Cyfryngau Digidol)

1.10. Mae dyletswydd ar bob gweithiwr cyflogedig, gweithiwr dros dro, aelod staff achlysurol, gwirfoddolwr, contractwr, partner cymunedol a chleient i ymgyfarwyddo â'r polisi hwn a'r cyfrifoldebau cysylltiedig, pob un ohonynt yn weledol ac ar gael i bawb ar y Fewnrwyd a'r rhyngrwyd. Os yw aelodau staff, gweithwyr dros dro neu staff rhan amser yn ansicr neu'n aneglur am unrhyw agwedd o'r polisi hwn neu bolisïau cysylltiedig, mae ganddynt gyfrifoldeb i ofyn i'w Rheolwr Llinell am eglurdeb. Mae dyletswydd ar bob gwirfoddolwr, contractwr, partner cymunedol a chleient i ofyn i'w pwynt cyswllt yn Amgueddfa Cymru am eglurdeb hefyd.

1.11. Caiff y polisi hwn a’r gweithdrefnau cysylltiedig eu hadolygu gan y Grŵp Diogelu bob chwarter, a gan Grŵp Polisis Iechyd a Diogelwch a Thîm Rheoli’r Amgueddfa bob 3 blynedd neu’n gynharach os bydd newid mewn deddfwriaeth neu arfer gorau.

## 2. Diogelu – Perchnogaeth a Chyfrifoldeb

2.1. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb i bawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y caiff plant ac oedolion sy'n wynebu risg eu diogelu rhag camdriniaeth.

2.2. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod ei dyletswydd gofal wrth sicrhau ein bod yn diogelu ein staff, ein cwsmeriaid a phawb sy'n ymgysylltu â'n gwasanaeth. Rydym yn derbyn y ddyletswydd hon yn llwyr ac yn ddigamsyniol.

2.3. Lle bod modd, byddwn yn sicrhau y bydd dau berson yn goruchwylio gweithgareddau, naill ai aelodau staff, athrawon, arweinydd cymunedol neu debyg. Yn ychwanegol, bydd angen i staff sy'n debygol o fod ar eu pennau eu hunain am gyfnod byr wrth weithio â phlant neu oedolion mewn perygl am unrhyw reswm gael gwiriad dyfnach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

2.4. Darperir asesiadau risg ar gyfer pob gweithgaredd gan yr aelod staff sy'n arwain y gweithgaredd.

2.5. Rydym wedi ymrwymo i gymryd honiadau neu bryderon o ddifri, gan ymateb yn gyflym, yn gyfatebol ac yn deg i unrhyw honiadau o gam-drin neu bryderon ynghylch diogelu.


2.6. Bydd Amgueddfa Cymru yn dynodi **Arweinydd Diogelu Dynodedig**. Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig fydd y pwynt cyswllt canolog ar gyfer datgeliadau, pryderon ac atgyfeiriadau diogelu, a bydd yn darparu cyngor, hyfforddiant ac arweiniad arbenigol ar draws y sefydliad. Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn adrodd i Dîm Arwain yr Amgueddfa.

2.7. Bydd pob un o wyth safle Amgueddfa Cymru yn nodi ac yn hysbysebu person cyswllt diogelu lleol, sef **Arweinydd Diogelu'r Safle**, a fydd yn adrodd i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

2.8. Yr Arweinydd Diogelu'r Safle neu berson dirprwyedig fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer datgeliadau, pryderon ac atgyfeiriadau diogelu. Byddant yn adrodd i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

2.9. Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd chwarterol y 'Grŵp Diogelu' i fonitro, adolygu a datblygu arfer diogelu yn weithredol.

## 3. Strwythur Diogelu



# 4. Cyfrifoldebau Cyfreithiol

4.1. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i ddiogelu plant ac oedolion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys nid yn unig y rheiny sy'n derbyn ein gwasanaethau, ond hefyd ein cydweithwyr a phobl eraill rydym yn gweithio ac yn rhyngweithio â nhw.

4.2. Ni fyddwn yn cuddio rhag ein cyfrifoldebau, ac rydym yn cydnabod ein dyletswydd gofal i bobl eraill. Fyddwn ni byth yn 'cerdded heibio' os bydd gennym ni bryderon ynghylch lles unigolyn neu unigolion.

4.3. Cyfrifoldeb pawb yw diogelu plant ac oedolion rhag camdriniaeth, ac ein busnes ni yw gwneud hyn.

4.4. Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 – Cyflwynwyd y gweithdrefnau hyn ym mis Tachwedd 2019 ar gyfer cymeradwyaeth fel arfer safonol o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae'r gweithdrefnau hyn yn gymwys ar gyfer plant ac oedolion, a'u nod yw llywio arferion diogelu i bawb sy'n rhan o'r sector statudol, y trydydd sector (gwirfoddol) a'r sector preifat yng ngofal iechyd, cymdeithasol, addysg, heddlu, cyfiawnder a gwasanaethau eraill. Maent yn gymwys ar gyfer pob ymarferydd a rheolwr sy'n gweithio yng Nghymru.

4.5. Mae'r gweithdrefnau yn gofyn i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan a chyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo lles. Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb i bawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y caiff plant ac oedolion sy'n wynebu risg eu diogelu rhag camdriniaeth.

4.6. "Cyfrifoldeb pawb yw diogelu ac amddiffyn."[1] Dylai pob person sydd mewn cysylltiad neu'n gweithio â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod, eu gofalwyr a'u teuluoedd; neu gydag oedolion a allai beri risg diogelu; neu sy'n gyfrifol am drefnu gwasanaethau i blant ac/neu oedolion:

---

[1] Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019

- ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n wynebu risg o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod;
- bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau a phrotocolau eu sefydliad ar gyfer diogelu a'u dilyn;
- gwybod â phwy i gysylltu yn eu sefydliad i drafod pryderon am blentyn sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod a'u dyletswydd i hysbysu;
- bod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod yn y teulu a thu hwnt;

4.7. Creodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA) weithdrefnau a disgwyliadau newydd ar gyfer diogelu a delio â phryderon o ran plant ac oedolion. Creodd y Ddeddf y term 'Oedolion mewn perygl' yn y gyfraith, gan gynnwys y ddyletswydd i ddiogelu eraill. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dull partneriaeth cryfach, cadarn ac effeithiol o ddiogelu.

4.8. Mae'r SSWBA yn datgan yn glir mai un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw ei fod yn gyfrifoldeb i bawb. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y caiff plant ac oedolion sy'n wynebu risg eu diogelu rhag camdriniaeth.

4.9. Rhaid i berson sy'n rhoi rhinweddau'r SSWBA ar waith geisio hyrwyddo lles y canlynol:

- pobl sydd angen gofal a chymorth, a
- gofalwyr sydd angen cymorth
- rhaid ystyried barn, dyheadau a theimladau'r unigolyn, cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol (ar gyfer unigolyn o unrhyw oedran)
- rhaid ystyried pa mor bwysig yw hi i ddechrau gan gymryd mai'r oedolyn yw'r person gorau i farnu ei les ei hunan

4.10. Mewn perthynas â Deddf Plant 1989[2], cydnabyddir bod Llesiant y Plentyn yn hollbwysig.

[2] Deddf Plant 1989 Adran 1(1) – https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1989/41/section/1

4.11. Mewn perthynas â diogelu oedolion mewn perygl, cydnabod y dylid cymryd bod gan bob oedolyn y capasiti i wneud eu penderfyniadau eu hunain[3].

[3] Deddf Galluedd Meddyliol 2005 Egwyddorion Adran 1 – https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/section/1

# 5. Diogelu Plant ac Oedolion

5.1. Mae unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn, yn ôl y gyfraith.[4]

5.2. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod bod yna strwythurau a deddfau gwahanol ynghylch sut rydym yn diogelu plant ac oedolion. Er mwyn rheoli'r gwahaniaethau hyn yn effeithiol, mae Amgueddfa Cymru wedi diffinio gweithdrefnau ar wahân ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Mae'r polisïau hyn ar gael i'w gweld a dylech eu dilyn lle bod gennych chi bryderon.

**<u>Plentyn mewn Perygl</u>**

5.3. Adnabod Plentyn mewn Perygl. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio Plentyn mewn Perygl[5] fel unigolyn o dan 18 mlwydd oed:

sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed

AC

y mae arno anghenion gofal a chymorth

(p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)

5.4. Lle bod plentyn mewn perygl, mae'r SSWBA yn mynnu bod yr Awdurdod Lleol yn gwneud ymholiadau priodol yn eu barn nhw, neu drefnu bod yr ymholiadau hyn yn cael eu gwneud, er mwyn penderfynu a ddylent gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plant.

5.5. Mae hyn yn cysylltu â Deddf Plant 1989 sy'n mynnu mai lles y plentyn ddylai fod yn flaenoriaeth.

---

4 Deddf Plant 1989/2004, Erthygl 1 Deddf Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig ac Adran 3 SSWBA 2014

5 Adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Oedolyn mewn Perygl**

5.6. Adnabod Oedolyn mewn Perygl. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio Oedolyn mewn Perygl[6] fel unigolyn dros 18 mlwydd oed:

sy’n cael, neu sy’n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso

AC

y mae arno anghenion gofal a chymorth

(p’un a yw’r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o’r anghenion hynny ai peidio)

AC

nad yw’n gallu, o ganlyniad i’r anghenion hynny, amddiffyn ei hunan rhag cael, neu’r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso

[6] Adran 126 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

# 6. Cyfrifoldebau Partneriaeth

6.1. Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod ei dyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn diogelu lles pobl eraill.

6.2. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau statudol o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y Ddeddf Plant, Gweithdrefnau Diogelu Cymru a deddfwriaeth berthnasol eraill lle bo'n briodol. Rydym yn cydnabod ymhellach yr angen i gydweithio ac i rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill mewn meysydd penodol mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd a chynnal cyfraith a threfn.

6.3. Lle bod angen, byddwn yn rhannu gwybodaeth yn unol â fframweithiau deddfwriaethol at ddibenion diogelu plant neu oedolion. Rydym hefyd yn cydnabod y gall asiantaethau rannu gwybodaeth gyfrinachol gyda ni o bryd i'w gilydd, er mwyn diogelu pobl eraill.

6.4. Rydym yn cymryd cyfrinachedd yn ddifrifol iawn. Dim ond lle bo'n angenrheidiol yn yr achos dan sylw a lle ein bod wedi'n hawdurdodi gan ddeddfwriaeth y byddwn yn rhannu gwybodaeth. Lle bo'n angenrheidiol i ni rannu gwybodaeth, byddwn yn dogfennu ein penderfyniadau a'r rhesymau dros eu gwneud.

6.5. Caiff unrhyw wybodaeth rydym yn ei derbyn ei thrin yn gyfrinachol a'i chadw yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data gyfredol. Byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth rydym yn ei chael at ddibenion y darparwyd yr wybodaeth honno ar eu cyfer yn unig, ac ni fyddwn yn cadw gwybodaeth gyfrinachol yn hirach nag sydd angen at ddibenion y darparwyd yr wybodaeth ar eu cyfer.

# 7. Hyfforddiant

7.1. Mae Amgueddfa Cymru yn disgwyl i bob gweithiwr cyflogedig, gweithiwr dros dro, aelod staff achlysurol, gwirfoddolwr, contractwr, partner cymunedol a chleient ddeall eu cyfrifoldebau o ran diogelwch.

7.2. Darperir hyfforddiant i bob gweithiwr cyflogedig, gweithiwr dros dro, aelod staff achlysurol, gwirfoddolwr, contractwr, partner cymunedol a chleient er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod ac yn deall yr angen i ymateb, cofnodi ac adrodd am unrhyw bryderon diogelwch. Bydd yr hyfforddiant a ddarperir yn dibynnu ar rolau a chyfrifoldebau, gyda thimau sy'n gweithio â'r cyhoedd yn derbyn hyfforddiant mwy manwl yn unol â'r Safonau Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol

7.3. Caiff cofnodion hyfforddiant i weithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro ac aelodau staff achlysurol eu cadw ar CIPHR a'u cynnal gan yr Adran Adnoddau Dynol, a byddant yn nodi anghenion dysgu i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

## Hyfforddiant Diogelu Syml

7.4. Mae'r Arweinydd Diogelu Dynodedig neu ddarparwyr priodol yn berchen ar ac yn cynnal yr hyfforddiant hwn i bob aelod o dîm Amgueddfa Cymru.

7.5. Rhaid i'r trosolwg syml tair awr i holl staff o ddisgwyliadau diogelu mewn perthynas ag oedolion a phlant gynnwys (fel isafswm):

- Arwyddion, symptomau a chategorïau o gamdriniaeth
- Cyfrifoldebau diogelu'r sefydliad ac unigolion
- Polisi Diogelu Amgueddfa Cymru
- Cefnogaeth ac arweiniad fewnol

7.6. I'w ddarparu cyn gynted â phosibl wedi i'r gweithiwr ddechrau, ac o fewn deufis o benodiad pob aelod staff newydd (gan gynnwys contractwyr sydd wedi'u cyflogi am ddeufis neu fwy).

7.7. Hyfforddiant wyneb yn wyneb i'w adnewyddu bob tair blynedd.

## Hyfforddiant Diogelu Canolradd

7.8. Wedi'i ddylunio i staff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd ac sydd mewn cysylltiad wyneb yn wyneb â phlant, pobl ifanc ac oedolion (gan gynnwys pob rôl sy'n gofyn am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)).

7.9. Mae'r Arweinydd Diogelu Dynodedig neu ddarparwyr priodol yn berchen ar yr hyfforddiant hwn.

7.10. Rhaid i'r trosolwg pedair awr fwy manwl o ddisgwyliadau diogelu mewn perthynas ag oedolion a phlant gynnwys (fel isafswm):

7.10.1. Arwyddion, symptomau a chategorïau o gamdriniaeth
7.10.2. Ymateb i bryderon
7.10.3. Polisi Diogelu Amgueddfa Cymru
7.10.4. Cyfrifoldebau diogelu'r sefydliad ac unigolion
7.10.5. Cefnogaeth ac arweiniad fewnol

7.11. I'w fynychu o fewn un mis o benodiad pob aelod staff newydd (gan gynnwys contractwyr sydd wedi'u cyflogi am fis neu fwy).

7.12. Hyfforddiant wyneb yn wyneb i'w adnewyddu bob tair blynedd.

## Hyfforddiant Diogelu Uwch

7.13. Wedi'i ddylunio i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, Arweinwyr Diogelu Safle ac eraill a nodwyd gan Dîm Arwain yr Amgueddfa.

7.14. Hyfforddiant i’w gynnal yn aml, er mwyn uwchsgilio unigolion a’u galluogi i fod yn ‘Hyrwyddwyr Diogelu’ sy’n gallu cynnig cyngor diogelu gweithredol a strategol i gydweithwyr Amgueddfa Cymru, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i’r canlynol):

- Gwybodaeth ac arbenigedd ar gyfeirio achosion i asiantaethau
- Cyfrifoldebau o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Cyfrifoldebau o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Rhannu gwybodaeth amlasiantaeth

7.15. Hyfforddiant i gynnwys mynychu Hyfforddiant Diogelu Plant – Adnabod, Cyfeirio a’r Broses Ddiogelu Plant – Cwrs 1 Diwrnod (neu gyfwerth).

7.16. Mynychu hyfforddiant Oedolion sy’n wynebu Risg gyda hwyluswyr allanol – cwrs hanner diwrnod.

7.17. Mynychu cyfleoedd eraill am hyfforddiant diogelu wrth iddynt godi.

## 8. Beth i’w wneud os oes gennych chi bryder

8.1. Nid cyfrifoldeb gweithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid Amgueddfa Cymru yw penderfynu a yw person yn cael ei gam-drin neu beidio.

8.2. Mae cyfrifoldeb ar weithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid Amgueddfa Cymru i ymateb ac adrodd am bryderon, yn unol â pholisïau cysylltiedig:

- Gweithdrefnau Diogelu Plant
- Gweithdrefnau Diogelu Oedolion

8.2.1. Os bydd aelodau staff, gweithwyr dros dro a staff rhan-amser yn methu â gwneud hyn, caiff yr achos ei archwilio yn unol â’n Polisi Disgyblu.

8.2.2. Os bydd gwirfoddolwyr yn methu â gwneud hyn, caiff yr achos ei archwilio yn unol â’n Polisi Setlo Trafferthion Gwirfoddolwyr.

8.2.3. Os bydd contractwyr, partneriaid cymunedol neu gleientiaid yn methu â gwneud hyn, caiff cyrff perthnasol eu hysbysu o unrhyw ganfyddiadau.

8.3. Bydd Amgueddfa Cymru yn cefnogi ei holl weithwyr cyflogedig, gweithwyr dros dro, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, contractwyr, partneriaid cymunedol a chleientiaid sy’n codi pryderon am ddiogelu.

# 9. Geirfa a Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod | Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cynnwys unrhyw gamau i dorri organau cenhedlu allanol benywod yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu achosi niwed arall i organau cenhedlu benywaidd am resymau heblaw rhai meddygol. Mae'r ddyletswydd adrodd gorfodol ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn ddyletswydd gyfreithiol sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2015). Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cofrestredig ac athrawon yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i'r heddlu os ydyn nhw'n amau bod merch o dan 18 oed wedi profi Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Bwlio | Does dim diffiniad cyfreithiol o fwlio.<br><br>Fodd bynnag, caiff ei ddiffinio gan ymddygiad sydd, fel arfer:<br>• yn cael ei ailadrodd<br>• â'r bwriad i frifo rhywun naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol<br>• wedi'i anelu at grwpiau penodol o bobl, er enghraifft oherwydd hil, crefydd, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol rhywun<br><br>Gall fod ar sawl ffurf a gall gynnwys:<br>• ymosodiad corfforol<br>• pryfocio<br>• bygwth<br>• galw enwau<br>• seibrfwlio – bwlio drwy ffonau symudol neu ar-lein (er enghraifft e-bost, rhwydweithiau cymdeithasol a negeseuon gwib) |
| Caethwasiaeth Oes Fodern | Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys masnachu pobl a chaethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol.<br><br>(Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) |
| Camdriniaeth | Mae camdriniaeth yn golygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, boed hynny mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), a chamdriniaeth ariannol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) . |
| Camdriniaeth Ariannol | Mae'n cynnwys:<br>(a) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;<br>(b) bod person yn cael ei dwyllo; |

| | |
|---|---|
| | (c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;<br>(ch) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;<br>(Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) |
| Camdriniaeth Emosiynol | Camdriniaeth emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus. Weithiau, gelwir hyn yn gamdriniaeth seicolegol a gall niweidio iechyd emosiynol a datblygiad plentyn yn ddifrifol. Gall camdriniaeth emosiynol gynnwys ceisio dychryn neu fychanu plentyn yn fwriadol neu ei ynysu neu anwybyddu. Yn aml, mae plant sy’n cael eu cam-drin yn emosiynol yn dioddef math arall o gamdriniaeth neu esgeulustod ar yr un pryd. Mae camdriniaeth emosiynol yn cynnwys: bychanu neu feirniadu plentyn yn barhaus; bygwth, gweiddi ar blentyn neu ei alw’n enwau; gwneud y plentyn yn destun sbort, neu ddefnyddio gwawd i frifo plentyn; beio, gwneud bwch dihangol o blentyn; gwneud i’r plentyn berfformio gweithredoedd diraddiol; peidio â chydnabod hunaniaeth plentyn; ceisio rheoli bywyd plentyn drwy ei wthio’n ormodol neu beidio â chydnabod ei gyfyngiadau; amlygu plentyn i ddigwyddiadau neu ryngweithiadau a all beri pryder, megis trais yn y cartref neu gymryd cyffuriau; methu â hyrwyddo datblygiad cymdeithasol plentyn; peidio â chaniatáu plentyn i gael cyfeillion; anwybyddu plentyn yn barhaus; bod yn absennol; defnyddio plentyn; byth yn dweud pethau caredig, mynegi teimladau cadarnhaol na llongyfarch plentyn ar lwyddiannau; byth yn dangos unrhyw emosiynau wrth ryngweithio gyda phlentyn, a elwir hefyd yn esgeulustod emosiynol.<br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Camdriniaeth Gorfforol | Oedolyn – mae hyn yn cynnwys taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaethau, ataliaeth ddiangen, neu gosbi amhriodol.<br><br>Plentyn – mae camdriniaeth gorfforol yn golygu brifo plentyn neu unigolyn ifanc yn fwriadol. Mae’n cynnwys ataliaeth gorfforol; er enghraifft clymu’r unigolyn i wely, eu cloi mewn ystafell, achosi llosgiadau, clwyfo, slapio, dyrnu, cicio, brathu neu grogi, trywanu neu saethu, gwrthod rhoi bwyd neu sylw meddygol, rhoi cyffuriau, atal rhag cysgu, achosi poen, ysgwyd neu fwrw babanod, ffugio neu achosi salwch.<br>(Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Camdriniaeth Rywiol | Oedolyn – mae hyn yn cynnwys treisio ac ymosodiad rhywiol, neu weithgareddau rhywiol nad yw’r oedolyn wedi cydsynio iddynt, neu na allent gydsynio iddynt, neu y rhoddwyd hwy dan bwysau i gydsynio iddynt. |

| | |
|---|---|
| | Plentyn – mae 2 fath gwahanol o gam-drin plentyn yn rhywiol. Cânt eu galw yn gamdriniaeth drwy gyswllt a chamdriniaeth heb gyswllt.<br><br>Mae camdriniaeth drwy gyswllt yn cynnwys: gweithgareddau cyffwrdd, sef pan fydd camdriniwr yn dod i gysylltiad corfforol â phlentyn, gan gynnwys treiddiad; cyffwrdd unrhyw ran o'r corff mewn ffordd rywiol, p'un a yw'r plentyn yn gwisgo dillad ai peidio; treisio neu dreiddio drwy roi gwrthrych neu ran o'r corff tu mewn i geg, gwain neu anws plentyn; gorfodi neu annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol; gorfodi plentyn i ddadwisgo, i gyffwrdd organau cenhedlu rhywun arall neu i fastyrbio.<br><br>Mae camdriniaeth heb gyswllt yn cynnwys: gweithgareddau heb gyffwrdd, er enghraifft meithrin perthynas yn amhriodol, cam-fanteisio, perswadio plant i berfformio gweithrediadau rhywiol dros y rhyngrwyd a fflachio. Mae'n cynnwys annog plentyn i wylio neu wrando ar weithrediadau rhywiol; peidio â chymryd camau priodol i atal plentyn rhag bod yn agored i weithrediadau rhywiol gan eraill; a chwrdd â phlentyn yn dilyn meithrin perthynas amhriodol ar-lein gyda'r bwriad o'u cam-drin. Mae camdriniaeth yn cynnwys creu, gwylio neu ddosbarthu delweddau o blant yn cael eu cam-drin, caniatáu i rywun arall wneud, gwylio neu ddosbarthu delweddau o blant yn cael eu cam-drin, dangos pornograffi i blentyn, cam-fanteisio ar blentyn yn rhywiol am arian, grym neu statws. (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) |
| Camdriniaeth Seicolegol | Gweler Camdriniaeth Emosiynol (uchod) |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | Deddfwriaeth benodol sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas yn ehangach. Mae'n cynnig gwarchodaeth benodol i bobl o ran:<br><br>- Oed<br>- Anabledd<br>- Ailbennu rhywedd<br>- Priodas a Phartneriaeth Sifil<br>- Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>- Hil<br>- Crefydd neu Gred<br>- Rhyw<br>- Cyfeiriadedd Rhywiol |
| Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | Deddfwriaeth hanfodol bwysig sy'n diffinio'r gallu i unrhyw un dros 16 oed wneud eu penderfyniadau eu hunain. Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd y Ddeddf yma. Yn benodol: |

| | |
|---|---|
| | • Bod hawl gan bob unigolyn i wneud ei benderfyniadau ei hunan, hyd yn oed os yw pobl eraill yn gweld hynny'n benderfyniad annoeth<br>• Bod rhaid cymryd yn ganiataol bod gan unigolyn gydsyniad<br><br>Mae hyn yn bwysig yn benodol o ran cydnabod bod gan oedolion yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Wrth weithio gydag unigolion, dylid gosod unigolion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a'u cynnwys yn y canlyniadau. |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Deddf Senedd Cymru i ddiwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol; gwneud darpariaeth ynghylch gwella'r canlyniadau lles i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth; gwneud darpariaeth ynghylch cydweithredu a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda golwg ar wella lles pobl; gwneud darpariaeth ynghylch cwynion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol; ac at ddibenion cysylltiedig.<br><br>Daeth y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus, fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. I sicrhau bod gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. |
| Deddf Plant 1989 | Gellir dadlau mai dyma'r darn pwysicaf o ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu plant. Mae'n gosod mandad y dylai lles plant fod yn brif ystyriaeth. |
| Deddf Plant 2004 | Mae'r Ddeddf yma'n adeiladu ar Ddeddf 1989 ond nid yw'n ei disodli. Mae'n cynnwys dyletswydd ar bob sefydliad i hyrwyddo a diogelu lles plant. |
| Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Diben y Ddeddf<br><br>(1) Diben y Ddeddf hon yw gwella—<br><br>(a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;<br><br>(b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;<br><br>(c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |

| | |
|---|---|
| Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 | Deddfwriaeth sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas yn ehangach o ran y Gymraeg. |
| Diogelu | Ystyr diogelu yw amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol unigolion a'u galluogi nhw i fyw eu bywydau yn rhydd o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod (y Comisiwn Ansawdd Gofal, 2014). |
| Esgeulustod | Ystyr esgeulustod yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn); (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)). |
| Lles | Diffinnir lles yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n berthnasol i blant yn ogystal ag oedolion mewn perthynas ag unrhyw rai o'r canlynol:<br><br>(a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol;<br>(b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;<br>(c) addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;<br>(ch) perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;<br>(d) cyfraniad a wneir at gymdeithas;<br>(dd) sicrhau hawliau a hawlogaethau;<br>(e) lles cymdeithasol ac economaidd;<br>(f) addasrwydd llety preswyl;<br>(ff) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. |
| Niwed | Ystyr niwed yw cam-drin neu amharu ar (a) iechyd corfforol a meddyliol, neu (b) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol. (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)). |
| Oedolyn | Mae unrhyw un dros 18 oed yn oedolyn yn ôl y gyfraith. |
| Oedolyn sy'n agored i niwed | Terminoleg a grëwyd yn Nogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru, Mewn Dwylo Diogel, yn 2000. Mae'r term 'Oedolyn sy'n agored i niwed' bellach wedi'i ddisodli gan y term 'Oedolyn sy'n wynebu risg', fel y'i diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Oedolyn sy'n wynebu Risg | Unigolyn dros 18 oed:<br><br>Sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso AC |

| | |
|---|---|
| | Y mae arno anghenion gofal a chymorth<br>(p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)<br>AC<br>nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hunan rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | Ystyr 'plentyn sy'n derbyn gofal' yw plentyn sydd wedi bod o dan ofalaeth yr awdurdod lleol am fwy na 24 awr. Cyfeirir at blant sy'n derbyn gofal fel 'plant mewn gofal' hefyd, term sy'n cael ei ffafrio gan lawer o blant a phobl ifanc. (NSPCC). |
| Plentyn | Mae unrhyw un o dan 18 oed yn blentyn yn ôl y gyfraith. |
| Plentyn sy'n wynebu Risg | Unigolyn o dan 18 oed:<br><br>Sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed<br>AC<br>y mae arno anghenion gofal a chymorth<br>(p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio) |
| Priodas dan Orfod | Mae gennych hawl i ddewis pwy rydych chi'n priodi, pryd fyddwch chi'n priodi neu ddewis peidio â phriodi.<br><br>Priodas dan orfod yw pan fyddwch yn wynebu pwysau corfforol i briodi (er enghraifft, bygythiadau, trais corfforol neu drais rhywiol) neu bwysau emosiynol a seicolegol (er enghraifft os oes rhywun yn gwneud i chi deimlo eich bod yn codi gwarth ar y teulu).<br><br>Mae priodas dan orfod yn anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• cipio rhywun dramor i'w gorfodi i briodi (p'un a yw'r briodas dan orfod yn digwydd ai peidio)<br>• priodi rhywun nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i gydsynio i'r briodas (p'un a ydyn nhw'n cael eu gorfodi ai peidio) |
| Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod | Mae Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod yn cyfeirio at rai o'r ffynonellau straen mwyaf dwys a rheolaidd y gallai plant ddod ar eu traws yn gynnar yn eu bywydau. Mae wedi'i ddangos bod straen sylweddol a hirfaith yn ystod plentyndod yn cael effaith hirdymor ar iechyd a lles unigolyn. Gall amharu ar ddatblygiad cynnar yr ymennydd ac effeithio ar allu'r systemau nerfol ac imiwnedd i weithio. Yn ogystal, oherwydd yr ymddygiadau mae rhai pobl sydd wedi wynebu profiadau niweidiol mewn plentyndod wedi'u |

| | |
|---|---|
| | datblygu, mae straen o'r fath yn gallu arwain at broblemau difrifol fel alcoholiaeth, iselder, anhwylderau bwyta [a phroblemau sylweddol eraill]. (Sefydliad Iechyd y Byd). |
| Radicaleiddio | Mae radicaleiddio yn cyfeirio at y broses pan fydd unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth neu ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgaeth. (Strategaeth Atal Llywodraeth San Steffan). |
| Safonau Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol | Safonau wedi eu datblygu gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar y cyd ag ymarferwyr ledled Cymru. |
| Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol | Enw ar yr unigolyn mewn awdurdod lleol sy'n gyfrifol am reoli a monitro honiadau diogelu yn erbyn gweithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig a di-dâl yw Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol. Maen nhw'n darparu cyngor, gwybodaeth ac arweiniad i gyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol am honiadau a phryderon diogelu. |
| Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd<br>Dyma'r enw ar y broses lle mae'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchardai yn gweithio ar y cyd gydag asiantaethau eraill i reoli'r peryglon posib pan fydd troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar yn byw yn y gymuned er mwyn amddiffyn y cyhoedd. |
| Trosedd Casineb | Mae troseddau sy'n cael eu cyflawni yn erbyn rhywun ar sail eu hanabledd, hunaniaeth drawsryweddol, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol yn droseddau casineb a dylid rhoi gwybod amdanynt i'r heddlu.<br><br>Mae troseddau casineb yn gallu cynnwys:<br><br>• ymddygiad bygythiol<br>• ymosodiad<br>• lladrad<br>• difrodi eiddo<br>• annog eraill i gyflawni troseddau casineb<br>• aflonyddu |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Ystyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yw:<br><br>(a) ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw unigolyn,<br>(b) ymddygiad sydd â'r gallu i beri niwsans neu annifyrrwch i unigolyn o ran meddiannaeth yr unigolyn hwnnw ar eiddo preswyl, neu |

| | |
|---|---|
| | (c) ymddygiad sydd â'r gallu i beri niwsans neu annifyrrwch i unigolyn o ran tai.<br>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 |
| Ymosodiad | Mae tri math o drosedd sylfaenol sy'n ymwneud ag ymosodiad i'w cael mewn deddfwriaeth – ymosodiad cyffredin, gwir niwed corfforol (ABH) a chlwyfo / niwed corfforol difrifol (GBH). Maen nhw'n cael eu diffinio'n bennaf gan y niwed sy'n cael ei achosi i'r dioddefwr – gydag ymosodiad cyffredin ar waelod y raddfa niwed a niwed corfforol difrifol ar y pen arall.<br><br>Maen nhw'n cynnwys popeth o ddefnyddio geiriau ymosodol i ymosodiad corfforol difrifol sy'n achosi anabledd parhaol i'r dioddefwr. |

| **Adolygiadau** | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygiad Nesaf | Hydref 2022 | Dyddiad adolygiad diwethaf | 3 Gorffennaf 2020 |
| **Sylwadau** | Wedi ychwanegu dolen Safonau Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol i 7.2 | | |
| Adolygiad Nesaf | Gorffennaf 2024 | Dyddiad Adoloygiad | |